Dŵr Cymru
Welsh Water

# Cynorthwyo Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs)

dwrcymru.com

## Rheoli Fersiynau

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Addasiadau i'r cyhoeddiad blaenorol |
|---|---|---|
| V1.0 | 01 Ebrill 2020 | D/B |
| V2.0 | 15 Mawrth 2021 | Ychwanegu troednodiadau 2 a 3 a diweddaru'r taliadau i fod yn gyson â'r rhai a gynigir i Ddatblygwyr. |
| V3.0 | 18 Chwefror 2022 | Ychwanegu brawddeg isod |
| V4.0 | 13 Mawrth 2024 | Cynnwys y safon Rhyddhau Swmp |

# Ymrwymiad Dŵr Cymru i Benodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs) ar gyfer safleoedd Heb eu Datblygu

Rydyn ni'n gweithio'n galed iawn i ddarparu gwasanaeth rhagorol ar eich cyfer, ond weithiau mae pethau'n mynd o chwith.

Fel cwmni sydd mewn perchnogaeth ac sy'n cael ei reoli ar ran ein cwsmeriaid, rydyn ni'n cymryd pob cam posibl i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf pob tro. Dyma'n haddewid i chi pen fo pethau'n mynd o chwith. Rydyn ni'n addo unioni pethau cyn gynted â phosibl, a lle na allwn gyflawni ein Lefelau Gwasanaeth, byddwn ni'n darparu ymddiheuriad a fydd yn cynnwys ein cynlluniau er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto, ac yn gwneud y taliad perthnasol i chi fel a amlinellir isod[1].

Oni nodir fel arall, byddwn ni'n talu'r taliadau hyn i chi'n awtomatig - nid oes angen i chi eu hawlio. Gallai fod yna eithriadau yn hynny o beth, er enghraifft, lle nad yw'r holl wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law, sy'n golygu y byddai'n amhosibl i ni gyflawni ein Lefelau Gwasanaeth.

**Dŵr**

| **Mesur** | **Targed** | **Taliad (£)** |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adolygiad o statws safle | 21 diwrnod | 50 |
| Cyhoeddi adroddiad am ddatblygiad arfaethedig[2] | 21 diwrnod | 50 |
| Cydnabyddiaeth ariannol am gais dŵr swmp | 5 diwrnod | 20 |
| Darparu cynnig Swmpwasanaeth | 28 diwrnod | 100 |
| Cwblhau'r Gwaith o Adeiladu'r Brif Bibell | 90 diwrnod | 200 |
| Darparu dŵr at ddibenion profi | 28 diwrnod | 50 |
| Darparu cyflenwad dŵr parhaol | 14 diwrnod | 200 |

**Carthffosiaeth**

| **Mesur** | **Targed** | **Taliad (£)** |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adolygiad o statws safle | 21 diwrnod | 50 |
| Cyhoeddi adroddiad am ddatblygiad arfaethedig[3] | 21 diwrnod | 50 |
| Cydnabyddiaeth ysgrifenedig o gais rhyddhau swmp | 5 diwrnod | 20 |
| Darparu cynnig Swmpwasanaeth | 28 diwrnod | 100 |
| Adeiladu carthffos oddi ar y safle | 180 diwrnod | 200 |

[1] Mae'r taliadau sydd ar gael i NAVs gyfwerth â'r rhai sy'n daladwy i Ddatblygwyr am wasanaeth cyfatebol.
[2]Nid yw hyn yn berthnasol pan fo'n rhan o gais manwl am swmpwasanaeth.
[3]Nid yw hyn yn berthnasol pan fo'n rhan o gais manwl am swmpwasanaeth.